# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 21AIN MEDI, 2023**
NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10:00YB

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**
**ac yn rhithiol drwy Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Ffion Elain Evans**

**ffionelainevans@gwynedd.llyw.cymru**

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

### AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (11)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Menna Baines | R Medwyn Hughes |
| Rheinallt Puw | Dewi Jones |
| Linda Ann Jones | Linda Morgan |
| Gwynfor Owen | Meryl Roberts |
| Einir Wyn Williams | Sasha Williams |
| Jina Gwyrfai | |

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Jones | Anwen J. Davies |
| Eryl Jones-Williams | Beth Lawton |
| John Pughe | Angela Russell |

## Llafur/Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio

Is-Gadeirydd y Cyngor – Y Cynghorydd Beca Roberts

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 22ain o Fehefin 2023, fel rhai cywir.

**5. POLISI GOSOD TAI A RHESTR AROS TAI** 12 - 14

I ystyried yr adroddiad.

**6. SEFYDLU SIOP UN STOP AR GYFER YMHOLIADAU TAI** 15 - 17

I ystyried yr adroddiad.

**7. LLETY CEFNOGOL CYFFREDINOL GAN GYNNWYS GWASANAETHAU ANABLEDDAU DYSGU, IECHYD MEDDWL A CHEFNOGAETH I FERCHED** 18 - 22

I ystyried yr adroddiad

**8. BRIFF DRAFFT GRWP TASG A GORFFEN CYNLLUN AWTISTIAETH** 23 - 25

I ystyried mabwysiadu'r briff ac ethol aelodau i ymgymryd â gwaith y grŵp tasg a gorffen.

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL DYDD IAU, 22 MEHEFIN 2023

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Menna Baines, Linda Anne Jones, Jina Gwyrfai, Dewi Jones, Linda Morgan, Meryl Roberts, Elwyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton a Gareth Coj Parry.

**Swyddogion yn bresennol:**

Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Eraill a wahoddwyd:**

Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**

Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant).
Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant )
Mannon Trappe (Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl)

**Yn bresennol ar gyfer eitemau 8 a 9:**

Y Cynghorydd Elin Walker Jones (Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd)
Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)

**1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2023/2024**

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Beth Lawton yn Gadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal ar gyfer 2023/2024.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2023/2024**

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Linda Anne Jones yn Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal ar gyfer 2023/2024.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Rheinallt Puw, Gwynfor Owen, Einir Wyn Williams, Richard Medwyn Hughes, Sasha Williams, John Pughe, Anwen Jane Davies ac Angela Russell.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2023 fel rhai cywir.

**7. DIWEDDARIAD AR WASANAETH IECHYD MEDDWL GWYNEDD**

Cyflwynwyd diweddariad ar Wasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd. Atgoffwyd yr aelodau gan yr Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl bod y Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn dîm integredig ers 1996, a bod y Bwrdd Iechyd yn arwain ar y gwasanaeth. Manylwyd bod y gwaith yn cael ei arwain gan Strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella darpariaeth iechyd meddwl sydd ar gael i gefnogi unigolion yng Nghymru.

Eglurwyd bod y gwasanaeth wedi ei rannu i gynnig cefnogaeth o fewn gwasanaethau cynradd i achosion lefel isel, a gwasanaethau eilradd i achosion mwy dwys. Cadarnhawyd bod cyfeiriadau yn cael eu derbyn gan feddygon teulu, cyn cael eu craffu'n ddyddiol er mwyn ystyried os oes gwybodaeth ddigonol i wneud penderfyniad am addasrwydd i dderbyn asesiad iechyd meddwl. Nodwyd bod y cyfeiriadau yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r meddygon teulu gydag eglurhad, os nad ydynt yn addas i'w cyfeirio ymlaen i'r gwasanaeth perthnasol.

Esboniwyd bod cyfrifoldebau clir o fewn y bartneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Gan mai'r Bwrdd Iechyd sy'n arwain ar y gwasanaeth, mae'r ffocws ar ddiagnosis a meddyginiaeth ar eu rhan nhw - yr elfen feddygol. Cadarnhawyd mai rôl Cyngor Gwynedd fel awdurdod lleol yw canolbwyntio ar elfennau cymdeithasol. Nodwyd bod Cyngor Gwynedd hefyd yn arwain ar y gwaith o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Pwysleisiwyd mai gweithwyr yw prif adnodd y gwasanaeth gan eu bod yn cynnig therapi a chefnogaeth i unigolion ymdopi a goresgyn eu salwch.

Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd yn cyflogi staff mewn nifer o rolau gwahanol er mwyn cynnig y gwasanaeth hwn, gan gynnwys:

- 2 Arweinydd Ardal (Gogledd a De Gwynedd)
- 12.5 Gweithiwr Cymdeithasol
- 9 Gweithiwr Cefnogol er mwyn gweithio'n fwy dwys gydag unigolion ar gynlluniau gofal a thriniaeth (gyda chyfraniad ariannol i'w cyflogi gan y Bwrdd Iechyd).

Bwriedir ailfodelu'r cynllun aml asiantaeth iechyd meddwl presennol sydd gan Gyngor Gwynedd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn dilyn ymgynghoriad â Phennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Uwch Reolwr Iechyd Meddwl a'r ddau Arweinydd Ardal ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Amlygwyd yr angen i adolygu rôl y Gweithwyr Cefnogol o fewn y gwasanaeth a'r angen i adolygu lleoliadau all-sirol er mwyn sicrhau ein bod yn deall dyheadau unigolion i ddychwelyd i'r ardal neu beidio.

Adroddwyd bod trafferthion yn codi ar draws Gwynedd a gweddill Cymru pan mae awdurdodau lleol yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn integreiddio Gofal a Iechyd Cymdeithasol, gan gynnwys:

- Diffyg eglurder am ddeilliannau
- Galw rhywbeth yn 'bartneriaeth' er mwyn gwneud iddo swnio'n well
- Diffyg eglurder am ysgogwyr sefydliadol
- Diffyg eglurder am ysgogwyr sydd heb eu datgan
- Bod yn afrealistig a gor-uchelgeisiol;
- Dim digon o sylw i fanylion ymarferol.

Cadarnhawyd bod y peryglon cyffredin hyn yn cael eu nodi fel rhwystrau creiddiol gan arweinwyr iechyd meddwl, sy'n eu hatal rhag cyflawni eu dyletswyddau statudol yn effeithiol. Nodwyd bod lefel y risgiau hyn wedi cynyddu ac yn cael effaith ar lesiant y staff gan wneud iddynt deimlo'n ynysig a ddim yn rhan greiddiol o'r bartneriaeth.

Manylwyd ar risg arall sy'n effeithio'r bartneriaeth drwy gadarnhau bod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio systemau papur yn hytrach na systemau technolegol (megis WCCIS). Eglurwyd bod defnyddio systemau papur i gasglu data sensitif yn beryglus ac yn gweithredu fel rhwystr wrth rannu gwybodaeth a chynllunio gwasanaethau yn effeithiol. Esboniwyd bod hyn yn arwain at risgiau ychwanegol gan gynnwys:

- Risg llywodraethu: ynghylch rheoli data yn ddiogel
- Risg cyfathrebu: ynghylch cofnodi a rhannu gwybodaeth yn gyfredol
- Risg rôl: ynghylch cyflawni'r rôl statudol a amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Nodwyd bod nifer o opsiynau wedi cael eu cysidro ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol, gan gynnwys:

a) Parhau ar ffurf y gwasanaeth presennol.
b) Adolygu trefniant partneriaeth newydd am gyfnod o flwyddyn , gyda chyfarfodydd chwarterol i adolygu'r trefniant/cynnydd.
c) Trosglwyddo i dîm/gwasanaeth gofal cymdeithasol/llesiant ar wahân sy'n cyd-fynd â sefydlu llwybr cymdeithasol ataliol llesiant ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Mynegwyd barn gref nad oedd y trefniant presennol yn gynaliadwy. Yn ogystal, roedd teimlad na fyddai sefydlu cytundeb partneriaeth arall yn datrys y materion allweddol nac yn wir yn lliniaru'r risgiau sylweddol a nodwyd. Mae'r model presennol yn cynnig sicrwydd cyfyngedig o bartneriaeth effeithiol a diogel

Cadarnhawyd mai model fel opsiwn C uchod a fyddai fwyaf addas i Wynedd oherwydd y byddai'n fodel llesiant pwrpasol ac yn hyrwyddo'r amcanion allweddol. Eglurwyd bod y rhain yn canolbwyntio ar:

- Lliniaru risg bresennol oherwydd y cyfathrebu gwael ynghylch cynnydd a newid gan y Bwrdd Iechyd.
- Darparu mwy o berchnogaeth ar lesiant, presgripsiwn cymdeithasol a model cymdeithasol adferiad iechyd meddwl.
- Darparu'r cyfle i adolygu gwasanaethau i hyrwyddo canolbwyntio ar ataliaeth drwy berchnogi gofal sylfaenol.

Sicrhawyd bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio er mwyn datblygu achos busnes i lywio sefydlu gwasanaeth llesiant iechyd meddwl gofal cymdeithasol ar wahân, cyn cynhyrchu adroddiad ar gamau pellach a fyddai'n canolbwyntio ar archwilio'n fanwl y broses rheoli prosiect ar gyfer sefydlu gwasanaeth Llesiant Iechyd Meddwl Gofal Cymdeithasol ar wahân. Nodwyd bod sawl ymgais wedi bod i ymgynghori gyda'r Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl o fewn y Bwrdd Iechyd er mwyn rhannu syniadau, cynllunio a chytuno ar sut bydd Cyngor Gwynedd yn cydweithio â nhw.

Mewn ymateb i'r sylwadau a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:

- Bod nifer o awdurdodau eraill, megis Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Wrexham a Chyngor Sir Y Fflint wedi penderfynu sefydlu partneriaeth ar wahân i'r

Bwrdd Iechyd eisoes, ac mae Cyngor Sir Ynys Môn mewn sefyllfa tebyg i Gyngor Gwynedd ac wrthi'n ystyried dyfodol eu gwasanaeth hwy.

- Cadarnhawyd bod cydweithio cadarn yn parhau rhwng y Bwrdd Iechyd, Cyngor Gwynedd a'r Llywodraeth wrth weithio mewn partneriaeth. Nodwyd bod rhai o'r awdurdodau eraill sydd wedi dod a'r gwasanaeth ar y cyd i ben wedi gweld gwelliant yn y cydweithio rhyngddynt hwy a'r Bwrdd Iechyd o dan eu trefniant newydd.
- Nodwyd mai nod Llywodraeth Cymru yw integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Eglurwyd er bod y model newydd yn mynd yn groes i'r egwyddor hynny y bydd yn sicr o gryfhau'r cydweithio rhwng y ddau gorff yn unol ag egwyddorion Llywodraeth Cymru.
- Cytunwyd bod problemau cydweithio ers blynyddoedd, hyd yn oed cyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gael ei sefydlu. Nodwyd os na fydd y model yn llwyddiannus, bydd yr Adran yn cydnabod hynny ac yn atebol amdano.
- Eglurwyd y bu ymgynghoriad â Gweithwyr Cymdeithasol a'r Gweithwyr Cefnogol o fewn y gwasanaeth er mwyn derbyn mewnbwn ganddynt ar 14 Mehefin 2023. Adroddwyd bod y mwyafrif o'r gweithwyr yn croesawu'r newid gyda rhai yn pryderu gan fod ganddynt berthynas da â staff y Bwrdd Iechyd. Rhannwyd bod y gweithwyr yn edrych ymlaen at y newidiadau..
- Cadarnhawyd bod cyfathrebiad cyson yn digwydd gyda'r awdurdodau lleol eraill sydd wedi gwahanu o'u partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn i Wynedd gael dysgu am eu llwyddiannau a'u methiannau cynasefydlu'r model mwyaf addas ar gyfer y dyfodol.
- Sicrhawyd bod y broses o wahanu gyda'r Bwrdd Iechyd yn cael ei amserlennu ac bydd y Pwyllgor Craffu Gofal yn cael diweddariadau cyson. Nodwyd bydd angen cymeradwyaeth y Cabinet er mwyn symud ymlaen gyda'r model, ond bod yr Adran yn ffyddiog bydd y model newydd yn weithredol erbyn Ebrill 2024. Pwysleisiwyd nad yw'r dyddiad hwn yn derfynol ac mae posibilrwydd cryf bydd amserlen y model yn cael ei ddiwygio.
- Manylwyd ar yr angen i edrych ar gostau ariannol gan fod nifer o gyfeiriadau sy'n cyrraedd y gwasanaeth yn cynyddu yn sydyn, gan nodi bod tua 2000 yn fwy o gyfeiriadau yn y flwyddyn hon i gymharu â 2020.
- Bod yr Aelod Cabinet am gysylltu gyda'r Gweinidog Iechyd er mwyn egluro'r trafferthion cydweithio sy'n codi rhwng awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd.

Cadarnhawyd nad oedd gwahanu oddi wrth y Bwrdd Iechyd yn y maes hwn yn fethiant. Pwysleisiwyd bod y Bwrdd Iechyd yn llwyddo i ddarparu gofal meddygol gwych i gleifion a bod y model a fwriedir ei ddefnyddio ar gyfer y dyfodol am gael ei ddefnyddio er mwyn ymdopi'n well ag agweddau cymdeithasol o'r gofal.

Diolchwyd i'r Adran am yr adroddiad ac am eu gwaith o fewn y maes gofal iechyd meddwl.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Derbyn yr adroddiad a chefnogi cynlluniau'r adran i sefydlu model gwaith newydd ar gyfer Gwasanaeth Iechyd Meddwl**
2. **Gofyn i'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant gysylltu gyda Gweinidog Iechyd Llywodraeth Cymru i egluro bwriad i greu model gwaith newydd a'r rhesymau tu ôl i hynny**
3. **Croesawyd adroddiad cynnydd a chyfathrebiad cyson rhwng swyddogion yr Adran â'r Pwyllgor Craffu Gofal ar ddatblygiad y Gwasanaeth Iechyd Meddwl.**

**8. GWEITHLU GWASANAETH PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd gan nodi'r prif bwyntiau canlynol.

Cadarnhawyd bod yr adroddiad yn ddiweddariad i'r hyn gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2022 ar faterion sy'n effeithio Gwasanaeth Plant mewn perthynas â denu, recriwtio a chadw staff proffesiynol. Eglurwyd bod y Gwasanaeth wedi profi trafferthion yn y maes yma yn y flwyddyn 2020/21 yn sgil Pandemig Covid-19 a bod staff yn penderfynu gadael i fynd i swyddi eraill, neu gadael y proffesiwn yn gyfan gwbl. Pwysleisiwyd bod y sefyllfa wedi gwella erbyn hyn ac nid oes unrhyw swydd wag o fewn y gwasanaeth ar hyn o bryd.

Datganwyd bod pedwar maes i weithredu arnynt er mwyn ymateb i'r heriau sy'n ymddangos yn y gwasanaeth, sef:

- Cyflogau
- Denu a chadw staff
- Buddsoddi mewn gweithwyr newydd
- Datblygu lles staff

Eglurwyd mai cyflogau yw'r prif fater sy'n effeithio ar ddenu a chadw staff. Yn sgil hyn, gwelwyd bod staff yn gadael i weithio i awdurdodau eraill er mwyn cymryd mantais o delerau gwaith hyblyg. Nodwyd bod nifer o swyddi yn cael eu hysbysebu sawl gwaith cyn penodi staff, a bod angen diwygio'r raddfa gyflog yn aml cyn denu ymgeiswyr.

Soniwyd bod yr Adran yn ceisio adnabod talent o fewn y gweithlu presennol  ac yn rhoi cyfle i unigolion gael cymwysterau i ddatblygu eu gyrfa. Nodwyd bod y staff sy'n derbyn y gefnogaeth hon yn aros i weithio gyda'r adran am gyfnod maith. Hefyd, cadarnhawyd bod hyn yn gymorth i'r Adran i sicrhau bod y staff yn ddwyieithog.

Ymfalchïwyd bod yr Adran bellach yn denu ymgeiswyr wrth hysbysebu swyddi. Rhannwyd enghraifft o Swyddi Awtistiaeth a hysbysebwyd yn ddiweddar ble derbyniwyd 20 ymgais ar gyfer 4 swydd.

Esboniwyd bod yr Adran yn ceisio osgoi defnyddio staff asiantaeth ble mae'n bosibl. Nodwyd bod trafferthion yn gallu codi wrth eu defnyddio oherwydd dim ond un wythnos o rybudd sydd angen ei nodi cyn iddynt orffen gweithio i'r Adran. Yn ogystal, nodwyd bod y mwyafrif o staff asiantaeth yn ddi-gymraeg a bod eu cyflogau tua 40-70% yn fwy na'r gyfradd arferol. Er hyn, cadarnhawyd bod uchafswm bellach wedi cael ei osod ar gyflogau staff asiantaeth. Cadarnhawyd nad oes staff asiantaeth wedi gweithio i'r Adran ers tua 7 mlynedd oherwydd eu llwyddiant gyda llenwi swyddi.

Nodwyd bod yr adran yn awyddus i barhau i roi anogaeth ac i roi sylw brys i faterion pwysig wrth ysbrydoli ac arwain. Eglurwyd bod tri opsiwn strategol posibl i'w ddilyn, sef:

1. Parhau ar yr un trywydd a chynnal y 'status quo'.
2. Dewis arddull drawsnewidiol, uchelgeisiol.
3. Dewis arddull rhagweithiol tuag at welliant parhaus.

Cadarnhawyd bod yr Adran yn ffafrio'r trydydd opsiwn uchod  gan ei fod yn opsiwn gyraeddadwy i ddatrys heriau'r Adran. Cadarnhawyd eu bod angen cefnogaeth y Cyngor i weithredu'r opsiwn hwn yn y dyfodol oherwydd bod y nifer o geisiadau sy'n cyrraedd yr Adran wedi cynyddu'n fawr dros y blynyddoedd diwethaf. Eglurwyd bod 7175 o geisiadau wedi cyrraedd ymmlwyddyn ariannol 2022/23 o'i gymharu a 2500 ymmlwyddyn ariannol 2019/20.

Mewn ymateb i'r sylwadau a chwestiynau gan aelodau,cadarnhawyd bod Gweithgor Cyflogau wedi ystyried nifer o opsiynau am y dyfodol gan
gynnwys cynnig cymwysterau i unigolion sydd yng nhanol eu gyrfa.

Diolchwyd i'r adran ac i'r holl weithwyr cymdeithasol am eu gwaith parhaus.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyniwyd yr adroddiad a rhoddwyd cefnogaeth i fwriad y Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd i roi ffocws ar y pedwar prif fater a nodwyd yn yr adroddiad fel ymateb i'r sefyllfa staffio gan gydnabod bod rhywfaint o'r gwaith eisoes wedi cychwyn.**

**9. ADBORTH ADOLYGIAD DIOGELU GAN AROLYGAETH GOFAL CYMRU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, gan nodi'r prif bwyntiau canlynol.

Cadarnhawyd bod Adolygiad Ymarfer Plant wedi cael ei gynnal ym mis Tachwedd 2022 gan ganolbwyntio ar Weithdrefnau Diogelu Cymru, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Manylwyd bod yr adolygiad yn ceisio pennu i ba raddau roedd strwythurau a phrosesau presennol yn sicrhau bod plant yn cael eu gosod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac hefyd yn cael eu tynnu oddi arni pan yn ddiogel i wneud hynny. Pwysleisiwyd hefyd ei fod yn gyfle i ddysgu ar y cyd, adnabod arferion da a systemau cadarnhaol o weithredu.

Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd yn un o bum awdurdod lleol a ddewiswyd i dderbyn yr adolygiad hwn. Nodwyd bod yr adolygiad wedi cymryd lle rhwng y 26ain a'r 29ain o Fawrth 2023 a bod adborth llafar wedi cael ei rannu gyda Phennaeth yr Adran a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Eglurwyd nad oes adroddiad penodol ar gyfer Gwynedd yn cael ei gyhoeddi, ond bydd adroddiad cyfansawdd ar gyfer yr adolygiad yn ei gyfanrwydd yn cael ei gyhoeddi pan fydd yr adolygiad wedi dod i ben.

Rhannwyd nifer o ganfyddiadau'r arolwg a oedd yn berthnasol i Wynedd, gan gynnwys:

- Bod plant yng Ngwynedd yn elwa o asiantaethau gwahanol yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol.
- Bod ffocws clir ar asesu risg a rhoddir sylw penodol i'r trothwy os ydi'r plentyn wedi, neu yn debygol o ddioddef niwed arwyddocaol,
- Bod penderfyniadau clir yn cael eu gwneud yn gyson ac yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Bod ymarfer da ar waith a bod llais a phrofiadau bywyd plant yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau am ddiogelwch.
- Sylwyd bod angen gwneud gwaith pellach i weld sut gellid datblygu cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn cynadleddau.
- Soniwyd bod rôl yr ymarferydd gofal cymdeithasol yn adnodd gwerthfawr.
- Nodwyd bod cyfathrebu clir efo rhieni yn enwedig pan fo staff yn ceisio esbonio i'r rhieni pam yr ystyriwyd bod eu plant mewn perygl o niwed arwyddocaol.
- Eglurwyd bod rôl cadeiryddion cynadleddau achos yn greiddiol bwysig o ran atgoffa aelodau o amcanion cynhadledd achos a gynhelir yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Diolchwyd i'r Adran am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn a nodi'r adroddiad.**

## 10. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2023-24.

Cyflwynwyd blaen raglen Pwyllgor Craffu Gofal ar gyfer 2023/24 gan yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu yn dilyn penderfyniadau'r Aelodau yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 9fed Mai 2023.

Nodwyd bod dwy eitem ar ôl i'w rhaglennu ar gyfer y flwyddyn, sef:

- Briff Grŵp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth
  - Ystyriwyd bydd yr eitem yma yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi.
- Adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth
  - Nodwyd and oes dyddiad wedi cael ei gadarnhau pryd bydd yr eitem hon yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor a'i fod yn ddibynnol ar gyfarfodydd pellach.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Blaen raglen yn ddogfen fyw ac felly mae modd diwygio'r flaenraglen os bydd materion ychwanegol yn codi yn ystod y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD**

**Mabwysiadwyd rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:15pm

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 21 Medi 2023 |
| Teitl: | Polisi Gosod Tai Gyffredin |
| Pwrpas: | Cyflwyno Diweddariad |
| Swyddog Cyswllt: | Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo |
| Aelod Cabinet: | Cynghorydd Craig ab Iago |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Yn y cyfarfod ar 29 Medi 2022 cytunodd y Pwyllgor Craffu Gofal bod angen ystyried yr agweddau canlynol:

- Ydy'r polisi wedi cyflawni ei bwrpas sef uchafu'r nifer o dai sy'n cael eu gosod i drigolion Gwynedd gyda chysylltiad lleol?
- Oes problemau wedi bod o ganlyniad i'r polisi newydd?
- Oes angen gwneud addasiadau pellach i'r polisi?

1.2 Cyflwynwyd adroddiad interim i'r Pwyllgor ar 11 Tachwedd 2022 gyda'r bwriad wedyn i gyflwyno newidiadau arfaethedig i'r Polisi Gosod Tai Gyffredin gerbron y Pwyllgor yn 2023 er mwyn i'r aelodau roi mewnbwn.

1.3 Mae'n ofyn statudol, yn unol ag adran 167 o Ddeddf Tai 1996, i bob awdurdod tai lleol yng Nghymru gael cynllun dyrannu tai (neu bolisi gosod tai) ar gyfer pennu blaenoriaethau a'r broses i'w dilyn wrth ddyrannu tai. Mae'r Ddeddf ac arweiniad statudol gan Lywodraeth Cymru yn pennu'r rheolau sydd rhaid eu dilyn wrth lunio a gweithredu'r polisi.

**2. Diweddariad**

2.1 Yn ystod 2022 sefydlodd Llywodraeth Cymru banel o arbenigwyr yn y maes digartrefedd a thai gyda'r bwriad o gyflwyno argymhellion ar ddiwygio deddfwriaeth ddigartrefedd i'r Gweinidog Newid Hinsawdd erbyn diwedd Awst 2023. Mae awdurdodau lleol wedi cyfrannu at waith y Panel Adolygu Arbenigol gyda chyfarfodydd misol yn cael eu cynnal gyda swyddogion y Llywodraeth yn ystod 2023 er mwyn cael barn gweithwyr proffesiynol yn y maes ar y diwygiadau arfaethedig. Mae adolygu'r ddeddfwriaeth gosod tai y cyfeirir ato uchod yn rhan o'r maes gwaith yma. Yn dilyn cyflwyno argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi Papur Gwyn ar ddiwygio'n sylfaenol deddfwriaeth ddigartrefedd, a disgwylir i'r Papur Gwyn hwnnw gael ei gyhoeddi ar 10 Hydref 2023.

2.2 Bydd cynnwys y Papur Gwyn yma yn amlwg yn dylanwadu'n sylweddol ar unrhyw newidiadau y gellir eu gwneud i bolisïau gosod tai. 'Rydym yn disgwyl yn eiddgar i ddarllen ei gynnwys a'i effaith ar yr hyn y gellir ei wneud o safbwynt adolygu ein polisi gosod tai ni yng Ngwynedd.

2.3 **Ydy'r polisi wedi cyflawni ei bwrpas sef uchafu'r nifer o dai sy'n cael eu gosod i drigolion Gwynedd gyda chysylltiad lleol?** Mae'r Polisi wedi bod mewn gweithrediad ers tair blynedd bellach, ac yn y cyfnod hwnnw mae dros 1700 o denantiaethau sector cyhoeddus wedi eu gosod trwyddo.

| Band blaenoriaeth | Nifer tenantiaethau newydd |
|---|---:|
| 1A - Ymgeiswyr mewn angen tai brys â chysylltiad Gwynedd | 805 |
| 1B - Ymgeiswyr mewn angen tai brys (heb gysylltiad Gwynedd) | 26 |
| 2 - Ymgeiswyr mewn angen tai â chysylltiad Gwynedd | 680 |
| 3 - Ymgeiswyr mewn angen tai heb gysylltiad Gwynedd ac ymgeiswyr gyda blaenoriaeth is | 91 |

| | |
|---|---|
| 4 - Ymgeiswyr heb angen tai gyda chysylltiad Gwynedd. | 105 |

2.4 Mi fydd ceisiadau sy'n ymddangos ym mandiau 1A, 2 a 4 gyda chysylltiad Gwynedd, ac er bod band 3 yn cynnwys ymgeiswyr mewn angen tai ond heb gysylltiad Gwynedd, mi fydd cyfran helaeth o'r ceisiadau sydd ym mand 3 yno oherwydd bod eu blaenoriaeth wedi ei leihau o fand 1A a 2. O'r 1707 tenantiaeth newydd, roedd 1651 wedi eu gosod i ymgeisydd oedd yn cymhwyso ar gyfer cysylltiad gyda Gwynedd yn unol â'r diffiniad yn y Polisi. Mae hyn yn 96.7% o'r gosodiadau. Roedd y ffigwr cyfatebol pan roedd y Polisi blaenorol yn cael ei ddefnyddio yn 90.0%, felly mae yna gynnydd sylweddol wedi bod o ganlyniad i weithrediad y Polisi presennol.

2.5 Mae'n bosibl cael Cysylltiad Gwynedd am unrhyw un o'r canlynol:

- Byw yng Ngwynedd am 5 mlynedd (ar unrhyw adeg)
- Cyswllt teuluol yng Ngwynedd ers dros 10 mlynedd. Aelod o'r teulu gyda rhiant, plentyn sy'n oedolyn, brawd neu chwaer sy'n byw yn y sir, ac wedi gwneud am o leiaf 10 mlynedd, ar ddyddiad y gwnaed y cais. Rhaid i'r ymgeisydd a'r perthynas fod angen byw wrth ymyl ei gilydd
- Darparu cymorth neu dderbyn cymorth gan berson neu ddarpariaeth yng Ngwynedd
- Gweithio yng Ngwynedd am y 5 mlynedd ddiwethaf
- Wedi cael cynnig swydd yng Ngwynedd ond gydag anabledd ac nid oes modd derbyn y swydd oherwydd anhawster canfod llety hygyrch
- Angen symud i Wynedd fel y gall aelod o'r teulu sydd gydag anabledd fynychu ysgol neu gael cymorth arbenigol ond nid oes modd gwneud hynny oherwydd anhawster dod o hyd i dai hygyrch
- Yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yng Ngwynedd
- Yn gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog, nad yw mewn cyflogaeth neu'n byw yng Ngwynedd ar hyn o bryd a wasanaethodd yng Ngwynedd tra'r oedd yn y Lluoedd

2.6 Dylid hefyd ystyried y gall fod yna ddyletswyddau statudol ar y Cyngor o safbwynt ymgeiswyr sy'n ddigartref lle na ellir ystyried cysylltiad lleol fel ffactor. Yn benodol felly mewn achosion o ffoi trais neu fygythiadau o drais gan gynnwys trais yn y cartref. Wedi ystyried hyn, mae'r ffigwr o 96.7% yn dangos yn glir bod Polisi presennol Gwynedd yn uchafu'r cyfle i bobl sydd â chysylltiad efo Gwynedd gael mynediad i eiddo cymdeithasol cymaint ag sy'n bosibl.

2.7 Mae'r Polisi hefyd yn cynnwys haen ychwanegol o 'gysylltiad lleol' ar ffurf cysylltiad ymgeisydd gyda chymuned. Bydd ymgeisydd sydd wedi byw am 5 mlynedd mewn ardal Cyngor Cymuned lle mae'n dymuno symud iddo yn ymddangos yn hanner uchaf ei fand blaenoriaeth, uwchlaw ceisiadau yn yr un band sydd heb y cysylltiad cymuned. Mae hyn yn atgyfnerthu'r cyfle i bobl gael eu cartrefu yn eu hardal leol. Trwy edrych ar y gosodiadau tai diweddar gwelwn fod 54.7% ohonynt yn cael eu gwneud i ymgeisydd sydd efo'r preswyliad cymuned. Mae hyn yn arwyddocaol, yn enwedig o ystyried y galw naturiol sydd yna i bobl symud o un ardal i un arall, a'r argaeledd - neu ddiffyg - o fathau arbennig o lety ymhob cymuned.

2.8 **Oes problemau wedi bod o ganlyniad i'r polisi newydd?** Cyn mabwysiadu'r Polisi 'roedd swyddogion o'r Cyngor ynghyd â swyddogion y Cymdeithasau Tai wedi ceisio rhagweld unrhyw broblemau a allai godi o weithredu'r Polisi newydd. Pan fo yna newidiadau sylweddol i bolisi gosod tai gyda'r bwriad o roi mwy o flaenoriaeth i rai grwpiau penodol o ymgeiswyr, bydd yn anorfod y bydd rhai ymgeiswyr eraill yn colli allan. Arweiniodd hyn at gynnydd yn y nifer o gwynion am y gwasanaeth ar ddechrau gweithredu'r Polisi, er bod nifer y cwynion bellach wedi gostwng yn sylweddol. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i staff Opsiynau Tai Gwynedd am eu hymroddiad i'w gwaith ers mabwysiadu'r Polisi ac i wneud ei weithrediad yn llwyddiant.

2.9 Gan nad oes gan y Cyngor ei stoc dai ei hun mae gweithio mewn partneriaeth efo'r Cymdeithasau Tai yn hollbwysig, ac mae yna berthynas weithredol iach yn bodoli gyda chyswllt dyddiol rhyngom. 'Rydym hefyd wedi sefydlu Grŵp Tai Arbenigol sydd yn cyfarfod yn fisol. Pwrpas y Grŵp ydi adolygu ceisiadau am eiddo arbennig, er enghraifft eiddo ar gyfer pobl gydag anableddau lle nad ydi'r stoc tai cymdeithasol arferol yn cwrdd â'u hanghenion. Mae'r Grŵp yn ystyried sut y gellir cwrdd â'r anghenion dyrys yma naill ai trwy addasu eiddo presennol neu adeiladu o'r newydd. Mae yna nifer o ddatrysiadau positif wedi deillio o waith y Grŵp sydd wedi arwain at ganlyniadau positif i drigolion Gwynedd.

2.10 **Oes angen gwneud addasiadau pellach i'r polisi?** Gyda'r farchnad dai yn newid yn gyson bydd angen i'n trefniadau ninnau hefyd fod yn hyblyg ac felly byddwn yn ystyried unrhyw newidiadau yng nghyd-destun y Polisi sy'n bosibl o fewn y fframwaith statudol. Fel y nodwyd uchod, bydd newidiadau sylfaenol i ddeddfwriaeth ddigartrefedd a dyrannu tai yn cael eu cyhoeddi'n fuan, ac felly bydd angen dadansoddi'r argymhellion hynny cyn dod i benderfyniad terfynol ar adolygiad pellach o'r Polisi.

**3.0 Argymhellion**

3.1 Derbyn a nodi'r adroddiad.

3.2 Swyddogion i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law ar unrhyw oblygiadau posibl i'r Polisi yn dilyn asesu cynnwys Papur Gwyn y Llywodraeth.

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 21 Medi 2023 |
| Teitl: | Sefydlu Siop un Stop ar gyfer Ymholiadau Tai |
| Pwrpas: | Cyflwyno Diweddariad |
| Swyddog Cyswllt: | Hedd Tomos, Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo |
| Aelod Cabinet: | Cynghorydd Craig ab Iago |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Fel rhan o adroddiad ar y Cynllun Gweithredu Tai ar Mawrth 17, 2022, diweddarwyd y Pwyllgor Craffu Gofal o'r gwaith i ddatblygu gwasanaeth ar gyfer trigolion Gwynedd ynglŷn â'u hymholiadau yn ymwneud â'r maes tai. Trwy sefydlu Siop Un Stop, mae'r Adran yn awyddus i gyflwyno cyfundrefn sydd yn gallu ymateb i anghenion trigolion wrth gyflwyno ceisiadau yn ymwneud â thai mewn un lle canolog. Trafodwyd gydag aelodau'r Pwyllgor fod, ar hyn o bryd, nifer o bwyntiau cyswllt o fewn yr Adran i'r cyhoedd gael mynediad at wahanol wasanaethau yn y maes Tai ac Eiddo a all olygu nad yw eu holl anghenion yn cael eu cyfarch.

1.2 Yn ogystal, i wella profiadau'r cwsmer, byddai sefydlu Siop Un Stop yn galluogi gwell dealltwriaeth o anghenion cyffredinol ein cwsmeriaid, ynghyd ag amlygu i reolwyr mewnol os oes angen buddsoddi mwy o ein hadnoddau mewn meysydd penodol.

**2. Diweddariad**

2.1 Mae sawl ddatblygiad nodedig wedi digwydd ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf ac fe amlygir y cynnydd yn yr adrannau isod.

2.2 Mae sesiynau ymgysylltu gyda phartneriaid allweddol (e.e. cymdeithasau tai a mudiadau trydydd sector) wedi'u cynnal dros y 18 mis diwethaf er mwyn adnabod a oes cyfleoedd i gryfhau'r trefniadau presennol ac unrhyw effaith posibl ar natur y cyswllt y bydd unigolion yn ei gael gyda'r mudiadau. Teimlwn y bu'r broses yn ddefnyddiol i rannu gwybodaeth y ddwy ffordd ynglŷn â phwrpas a'r broses cyfeirio, yn cynnwys, mewn rhai sefyllfaoedd, i ymholiadau barhau i fynd yn syth at ddarparwyr allanol. Cynhaliwyd trafodaethau gyda holl wasanaethau o fewn yr Adran ac Adrannau eraill perthnasol i gael gwell dealltwriaeth o'r cyswllt gyda'n trigolion mewn perthnasedd â'r ymholiadau y bydd y Siop Yn Stop yn eu cefnogi.

2.3 Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol gyda'r cyhoedd yn Ionawr 2023 i dderbyn adborth ynglŷn â phrofiadau cyffredinol trigolion yn ymwneud â'u cyswllt efo'r Adran Tai. Derbyniwyd 154 o ymatebion gyda'r mwyafrif (dros 50%) yn nodi bod eu profiadau yn dda neu dda iawn ar y cyfan a bod eu hymholiad wedi derbyn sylw priodol.

2.4 Amlygwyd fod dyhead clir i allu llenwi ffurflen gais ar-lein ar gyfer ceisiadau y gofrestr tai cymdeithasol gyda dros 70% o ymatebion yn nodi y byddai hwn yn ddatblygiad positif. Mae hyn eisoes wedi ei adnabod fel blaenoriaeth gan yr Adran, er nad oes capasiti oddi mewn y sustem bresennol i alluogi pobl i wneud ceisiadau ar lein neu i alluogi staff i brosesu'r ceisiadau. Fel canlyniad, mae hyn yn golygu bod rhaid darparu copïau caled o'r ceisiadau neu i yrru sgan o'r ceisiadau fel atodiad e-bost. Nid yw hwn y ffordd fwyaf hwylus i'r cwsmer neu'r ffordd fwyaf effeithiol i alluogi'r staff i ddelio gyda'r cais.

2.5 O'r rheiny wnaeth ateb 'oes' pan ofynnwyd 'oes unrhyw beth allwn ni ei wella?' (oddeutu 40%) amlygodd dros hanner yr ymatebion bod angen gwella'r cyfathrebu rhwng y Cyngor a'r cwsmer. Yn benodol, mewn rhai sefyllfaoedd mae diffyg cyfathrebu rheolaidd a diffyg diweddariadau wedi

bod yn broblem ac byddai gwell presenoldeb ar-lein i dderbyn y wybodaeth heb orfod codi'r ffôn/e-bostio wedi bod o fudd. Er, ar y cyfan, roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn fodlon gyda'r cymorth a chysondeb y wybodaeth a dderbyniwyd.

2.6 Un o'r camau mwyaf allweddol ar gyfer sefydlu'r drefn newydd oedd penodi arweinydd Siop un Stop yn Chwefror 2022 sydd wedi galluogi'r adran i ymchwilio sut gellid gosod strwythur priodol i weithrediad y Siop Un Siop.

2.7 Yn sgil penodiad yr arweinydd ac fel canlyniad i asesiad o natur yr ymholiadau a dderbyniwyd gan yr Adran daethpwyd i'r casgliad yn dilyn trafodaethau mewnol y byddai'n synhwyrol i ymgorffori'r Uned Tîm Opsiynau Tai i mewn i'r Siop un Stop. Roedd hyn fel canlyniad i asesiad o'r nifer o alwadau a dderbyniwyd gan yr Adran a'r nifer o ymweliadau i dudalennau we'r Adran Tai ac Eiddo, a oedd yn dangos yn glir mai'r maes gwaith yma oedd yn derbyn y mwyafrif o ymholiadau gan y cyhoedd. Mae hyn yn golygu fod, fel rhan o'r broses anwytho staff newydd sydd yn cael eu penodi i'r Siop Un Stop, y bydd hyfforddiant llawn ar gyfer asesu ceisiadau Opsiynau Tai yn cael eu cynnig. Mae staff presennol y Tîm Opsiynau Tai hefyd wedi derbyn hyfforddiant ynglŷn â delio gydag ymholiad cwsmer cyffredinol. Mae strwythur y tîm bellach bron yn gyflawn, a phenodwyd dirprwy arweinydd fel rhan o'r broses hyn yn ogystal ym mis Mai 2023.

**Sustem newydd**

2.8 Nodwyd yn yr adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor Craffu fod angen sefydlu sustem newydd a fyddai'n galluogi'r Adran i gadw gwybodaeth gynhwysfawr a chyfredol mewn un lle canolog. Ar y sail fod newidiadau arfaethedig wedi eu crybwyll i strwythur staffio mewnol (fel amlygwyd uchod), penderfynwyd cynnwys anghenion ar gyfer sustem newydd i waith y tîm Opsiynau Tai a'r maes digartrefedd yn ogystal.

2.9 Fel cam cychwynnol, ymchwiliwyd i ba fath o wybodaeth fydd angen i'r system gadw er mwyn helpu trigolion ynghyd â chasglu gwybodaeth ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol. Edrychwyd hefyd i mewn i gyfleoedd i gael gwell presenoldeb ar-lein i hwyluso'r dull i drigolion gysylltu, a pha effaith mae hynny am gael ar y tîm (e.e. lleihau galwadau, ac o bosib newid strwythur y tîm). Mae'n debygol y byddai presenoldeb ar-lein hefyd yn arwain at sefyllfa lle bydd swyddogion yn gallu canolbwyntio a'r natur craidd yr ymholiad yn hytrach nag ar agweddau gweinyddol.

2.10 Paratowyd briff ar gyfer y Tîm Categori Corfforaethol i adnabod sustemau a fyddai'n bodloni ein hanghenion drwy'r fframwaith G-Cloud 13. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd proses dendro ar gyfer y gwaith a threfnwyd cyfarfodydd gyda'r cwmnïau perthnasol i ofyn iddynt am ddealltwriaeth a fyddai eu sustemau yn cyfarch yr anghenion a oedd wedi'u hadnabod ac yn alinio gyda'n gweledigaeth ar gyfer y Siop un Stop. Crëwyd rhestr fer o'r sustemau ar y farchnad yn seiliedig ar gostau sefydlu, costau rhedeg, amserlen weithredu a gweithred y sustem ac mae'r cwmni llwyddiannus wedi ei adnabod i gyflawni system ar gyfer Opsiynau Tai a Digartrefedd.

2.11 Rhagwelir y bydd y sustem sydd wedi'i ddewis yn moderneiddio y gwasanaeth a gynigir i'r cyhoedd. Bydd hyn yn galluogi ymgeiswyr i roi cais am eiddo cymdeithasol ar-lein a byddent yn gallu gweld gwybodaeth eu cais yn cynnwys: band, math eiddo, nifer ystafell wely a dewisiadau ardaloedd. Gobeithir y bydd yn bosibl i hysbysu swyddogion y Siop un Stop o ddiweddariadau i'r cais trwy'r sustem newydd. I sicrhau fod y sustem yn bodloni anghenion elfennau Opsiynau Tai

ein partneriaid allanol yn ogystal, bu i ni ymestyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o’r Cymdeithasau Tai i sesiynau ar gyfer derbyn eu mewnbwn.

2.12 Mae’r gwaith rhaglenedig yn mynd yn ei flaen yn cynnwys trefniadau i sefydlu’r sustem, cyfnod treialu a dyddiadau ar gyfer hyfforddiant perthnasol.

2.13 I sicrhau fod y trefniadau cadarn ar gyfer cyfathrebu rhwng y Siop un Stop a sustemau mewnol adrannau eraill, penderfynwyd defnyddio’r sustem fewnol FFOS ar gyfer gwaith derbyn galwadau a gwaith gweinyddol dydd-i-ddydd y Siop un Stop, gan ei fod yn gysylltiedig gyda’r gwefan y Cyngor a chyfrifon ar y wefan yn barod. Bydd y ddau system yma yn gallu siarad gyda’i gilydd er mwyn hwyluso taith yr unigolyn o’r cyswllt cyntaf i’r olaf.

**Un Pwynt Mynediad (SPOA) Grant Cymorth Tai**

2.14 Fel y nodir yn yr adroddiad Pwyllgor Craffu Gofal blaenorol, mae’r Cyngor wedi penderfynu sefydlu Un Pwynt Mynediad (SPOA) ar gyfer rhai o brosiectau a gwasanaethau sydd yn cael eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai. Ariennir y trefniadau mewnol trwy’r Grant Cymorth Tai ac mae’r swyddogion yn eistedd o fewn y Siop Un Stop. Pwrpas y grant yn gyffredinol yw atal digartrefedd a chefnogi pobl i feddu ar y gallu, yr annibyniaeth, y sgiliau a'r hyder i gael gafael ar gartref sefydlog ac addas. Mi fydd sefydlu’r SPOA yn newid sylweddol i’r drefn bresennol. Bydd hyn yn symleiddio’r broses i unigolion sy’n cael eu cyfeirio at wasanaethau a darparwyr sydd yn derbyn arian o’r Grant Cymorth Tai. Mi fydd hyn hefyd yn caniatáu gwell trosolwg o holl anghenion yr unigolyn wrth gyfeirio at wahanol wasanaethau.

2.15 Bydd y trefniadau hyn hefyd yn galluogi’r Adran i gael gwell dealltwriaeth o bwy sydd yn derbyn cymorth gan y grant. Yn hanesyddol, bu rhaid disgwyl cyfnod o 6 mis i dderbyn gwybodaeth am ganlyniadau'r rhaglen. Bydd y drefn newydd yn golygu y medrwn ddefnyddio’r wybodaeth yma i helpu comisiynu darpariaeth newydd wrth ddefnyddio data cyfredol yn hytrach na gwybodaeth hanesyddol.

2.16 Mae trefn newydd y SPOA wrthi’n cael ei dreialu gydag unedau mewnol ar hyn o bryd ac mae 220 o drigolion Gwynedd eisoes wedi elwa wrth dderbyn gwybodaeth ac arweiniad gyda’u hanghenion cymorth tai perthnasol.

**3. Argymhellion**

3.1 Derbyn a nodi’r adroddiad.

3.2 Swyddogion i hysbysu aelodau’r Pwyllgor o’r broses ymgysylltu wrth i’r trefniadau gweithredol dod i rym.

| | |
|---|---|
| ADRODDIAD I | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYNGOR GWYNEDD |
| DYDDIAD | 21 Medi, 2023 |
| ADRODDIAD GAN | Y CYNGHORYDD DILWYN MORGAN<br>SWYDDOG - HELEN FÔN OWEN |
| PWNC | LLETY A CHEFNOGAETH ANABLEDD DYSGU |

**1. PWRPAS**

- Darparu cyd destun a diweddariad ar sefyllfa Llety a chefnogaeth i unigolion ag Anabledd Dysgu yng Ngwynedd.
- Rhannu gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol, prosiectau newydd a'r gwaith cynllunio i'r dyfodol er mwyn darparu llety a chefnogaeth o safon uchel i unigolion ag anabledd dysgu yng Ngwynedd.

**2. CEFNDIR A CHYD DESTUN**

Mae Cynllun Gweithredol Strategol Anabledd Dysgu 2022 I 2026 Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r agenda ar gyfer gwella gwasanaethau i unigolion ag anableddau dysgu. Mae hyn yn cynnwys lleihau anghydraddoldebau iechyd, hyrwyddo annibyniaeth a mynediad i eiriolaeth a chefnogi mynediad i addysg a chyfleoedd gwaith. Maes blaenoriaeth arall yw datblygu a gweithredu polisi tai addas dros gyfnod y Cynllun. Mae llety addas yn un o flaenoriaethau'r cynllun hwn. Mae'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu yng Ngwynedd wedi ymrwymo i'r blaenoriaeth yma drwy gydweithio agos gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni'r amcanion. Rydym yn cydweithio gyda'n partneriaid a chynllunio i ddatblygu modelau llety a chefnogaeth sy'n addas i gwrdd anghenion a hyrwyddo llesiant unigolion o fewn ein cymunedau. Rhan annatod o hyn yw gwella dewis a grymuso unigolion. Mae hyn yn cynnwys lle maent yn byw a gyda pwy.

Oherwydd bod anghenion unigolion yn amrywio mae angen ystod o lety a chefnogaeth, hyn yn cynnwys tai yn y gymuned, tai a chefnogaeth a chefnogaeth arbenigol i gefnogi unigolion ag anghenion cymhleth a dwys.

**3. SEFYLLFA BRESENNOL**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r gofyn am lety a chefnogaeth wedi cynyddu yng Ngwynedd. Ar hyn o bryd mae oddeutu 650 unigolyn ar y gofrestr anabledd dysgu. Mae yna 134 unigolyn ag anabledd dysgu yn byw mewn 70 llety cefnogol ar draws Gwynedd. Maent wedi eu rhannu fel a ganlyn:

 x 1 yn byw mewn  x32 eiddo

 x 2 yn byw mewn  x18 eiddo

 x 3 yn byw mewn  x16 eiddo

 x 4 yn byw mewn  x2 eiddo

 x 5 yn byw mewn  x2 eiddo

Ar hyn o bryd mae 32 unigolyn yn byw mewn lleoliadau preswyl o fewn y Sir a 21 unigolyn mewn lleoliad preswyl all-sirol.

**CYNNYDD YN YR ANGEN AM LETY A CHEFNOGAETH**

Mae'r gwasanaeth Anabledd Dysgu yn gweithio gydag unigolion o 18 oed i fyny. Fel rhan o'r broses trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion mae cydweithio agos rhwng y gwasanaethau, yn arbennig Tîm Arbenigol Derwen a'r Tîm Ôl-ofal. Mae'r cyd weithio yma'n hanfodol er mwyn adnabod unigolion sy'n trosglwyddo, cynllunio yn strategol a sicrhau bod y cyfnod yma'n brofiad positif a bod y gefnogaeth a roir i unigolion mor ddi-dôr a phosib. Mae gan nifer o'r unigolion hyn anghenion cymhleth a dwys ac angen llety a chefnogaeth ar ôl iddynt droi'n 18. Mae rhai eisoes mewn lleoliadau preswyl/ addysg arbenigol gyda rhai'n all-sirol.

Yn gyffredinol mae unigolion yn dewis symud allan o gartref eu rhieni yn gynt na rydym wedi profi yn y gorffennol. Mae hyn yn bennaf er mwyn cyrraedd eu dyheadau personol a byw'n annibynnol.

Mae nifer o unigolion yn derbyn gofal gan rieni hŷn ac mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r unigolion a'r teuluoedd er mwyn cynllunio mlaen i'r dyfodol gyda rhai'n dewis cyflwyno i lety a chefnogaeth er mwyn lleihau'r pwysau ar y gofalydd ac osgoi sefyllfa o argyfwng yn y dyfodol.


Drwy wella mynediad unigolion ag Anabledd Dysgu i wasanaethau Iechyd dros y blynyddoedd diwethaf mae unigolion yn byw yn hyn. Erbyn hyn mae gennym nifer o unigolion sydd dros 65 ar y gofrestr. Mae ymchwil yn cadarnhau bod pobl ag anabledd dysgu yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyffredin i ddioddef Dementia ac i ddatblygu cyflyrau iechyd cymhleth. Nôd y gwasanaeth yw cefnogi unigolion i fyw o fewn eu cartref cyn hired â phosib. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn bosib ac mae angen adnabod lleoliadau preswyl/ nyrsio i gwrdd anghenion iechyd cymhleth. Ar hyn o bryd nid oes digon o ddarpariaeth arbenigol o'r math yma i unigolion gydag anabledd dysgu ac mae'n heriol darganfod lleoliadau addas.

**4. CYNLLUNIO I'R DYFODOL**

Mae Prosiect Lletya Anabledd Dysgu wedi ei sefydlu er mwyn adnabod a mapio anghenion lletya ar draws y Sir. Adroddir ar gynnydd y prosiect yma drwy'r drefn herio perfformiad gorfforaethol. Bydd unrhyw gais am lety sy'n cael ei adnabod yn cael ei gyfeirio mlaen i'r Fforwm Blaenoriaethu Lletya - fforwm sy'n cwrdd yn fisol i drafod a blaenoriaethu ceisiadau.

'Rydym yn cynllunio'n strategol yn ôl yr angen e.e. angen bynglo ar gyfer unigolyn gyda anabledd corff. Byddwn hefyd yn ystyried ceisiadau yn erbyn unrhyw wagle sydd gennym mewn llety a chefnogaeth neu leoliad preswyl. Mae unrhyw waith a wneir i gyflwyno unigolion i leoliad newydd yn cael ei wneud yn sensitif a dros gyfnod o amser er mwyn monitro ac arsylwi bod yn amgylchedd yn cwrdd a'r anghenion a cydweddoldeb gyda tenantiaid eraill.

Wrth i unigolion ifanc symud o fyw efo rhieni i fyw yn annibynnol, yn aml mae nhw'n cael gofal 24/7. Mae hyn yn gostus dros ben ac yn cael effaith ar wariant y gwasanaeth. Mae'n ddyletswydd ar y gwasanaeth i hyrwyddo cyfleoedd i unigolion fyw yn annibynnol ond nid yw hyn bob tro yn rhwydd gan mewn realiti, bod y gefnogaeth staffio yn uchel mewn rhai achosion ac mae'r gost a recriwtio yn heriol. Mae'r gwasanaeth yn cyflwyno bidiau blynyddol ar gyfer cwrdd yr angen yma ond oherwydd y pwysau ariannol ehangach, nid yw'r bidiau llawn wedi bod yn llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn wedi cyfrannu at orwariant y Gwasanaeth.




*Graff sy'n dangos y nifer o unigolion sydd ar ein rhestr lletya. Mae coch yn cynrychioli'r unigolion hynny sydd ag angen blaenoriaeth (h.y. o fewn y flwyddyn nesaf), oren yn cynrychioli'r rheini sydd angen llety o fewn y 2 flynedd nesaf, a gwyrdd yn dynodi'r unigolion sydd angen cynllunio ar eu cyfer dros y blynyddoedd nesaf.*

**Addasu eiddo presennol i unigolion barhau i fyw yn eu cartref**

Wrth i anghenion unigolion newid, ambell waith bydd angen addasu eu cartref presennol er mwyn sicrhau bod y cartref yn hygyrch, i hyrwyddo a sicrhau parhad annibyniaeth ac i leihau risgiau. Os adnabyddir rhwystrau bydd hyn yn cael ei gyfeirio ymlaen fel bod modd cwblhau asesiad gan Therapydd Galwedigaethol a chwblhau mân addasiadau neu ddarparu offer. Mae'n bosib i'r Landlord/ Cymdeithasau tai gwblhau gwelliannau i'r eiddo o dan gais grant os yn addas. Mae hyn wedi digwydd yn llwyddiannus gyda sawl eiddo.

## 5. CYDWEITHIO STRATEGOL

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r cydweithio gyda'r rhanddeiliaid a'n partneriaid yn y cymdeithasau tai ac adran Eiddo wedi cryfhau. O ganlyniad i hyn mae sawl prosiect newydd ar y gweill a golyga hyn bydd modd cynyddu'r ddarpariaeth lletya yng Ngwynedd i gwrdd a'r angen ymysg poblogaeth anabledd dysgu. Arian grant cyfalaf Llywodraeth Cymru 'HCF' (Housing with Care Fund) sydd yn cael ei ddefnyddio i ariannu rhai o'r cynlluniau yma. Mae'r ffynhonnell yma wedi ariannu byngalo yn Groeslon bron yn llawn ac mae tri tenant ar fin symud mewn i'r eiddo yma. Mae hefyd yn cyfrannu yn sylweddol at eiddo sy'n cael ei addasu ym Mhwllheli ar hyn o bryd.

Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu dau fyngalo hygyrch yng Ngwynedd, un yn ardal Penrhyndeudraeth a'r llall yn Harlech. Bydd yr eiddo yma'n dai rhannu i 3 unigolyn yr un gyda staff 24 awr.

Rydym hefyd wedi adnabod eiddo yn Llanrug. Yn dilyn ail-ddylunio bydd yn gartref i 4 unigolyn.

Ar hyn o bryd mae trefniadau ar y gweill i gyflwyno 2 unigolyn i gartrefi ar safle Penyberth, Penrhos, Pwllheli. Mae'r tîm aml ddisgyblaethol wedi adnabod dau eiddo sy'n addas, bydd cefnogaeth 24 awr yn cael ei gomisiynu. Wrth i'r prosiect arfaethedig ar y safle yma ddatblygu, bydd potensial cael llety a chefnogaeth pellach i'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu. Gallai hyn fod yn fanteisiol gan y byddai'n cyd-blethu gyda'r weledigaeth ehangach o ddarparu ac integreiddio gwasanaethau gofal ar y safle.

Yn ogystal a'r datblygiadau yma, mae cynlluniau i ddatblygu model llety o'r newydd ar safle cartref preswyl Frondeg, Caernarfon. Bydd hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol yn addas i'r dyfodol gan gynnig eiddo rhannu neu unigol i breswylwyr Frondeg a chreu capasiti fel bod modd ail gyflwyno unigolion all-sirol nôl i Wynedd. Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth yma'n ein galluogi i gefnogi unigolion gydag anghenion cymhleth a dwys, rhai ohonynt sydd ar hyn o bryd mewn lleoliadau arbenigol costus. Bydd hefyd yn rhoi hyblygrwydd o wasanaeth 'step up/ step down' gyda'r modd i ddarparu cefnogaeth mewn amgylchedd sy'n llai ymwthiol gyda'r gallu i alw ar staff ychwanegol petai angen. Fel ffordd i gwrdd a'r diffyg darpariaeth i unigolion hŷn gydag anghenion iechyd cymhleth / dementia gyfeiriwyd atynt yn flaenorol yn yr adroddiad mae'n hanfodol bod y prosiect yma'n cynllunio eiddo a model gofal a chefnogaeth i gwrdd ag anghenion y grŵp yma o unigolion.

CEFNOGAETH GWASANAETH RANBARTHOL – GWASANAETH GYDA'N GILYDD

Mae'r gwasanaeth yn derbyn cefnogaeth ar sawl lefel gan Gwasanaeth Gyda'n Gilydd sef y tîm rhanbarthol sydd yn gweithio ar draws gyda'r chwe sir i gynllunio a datblygu gwasanaethau a chyfleodd i unigolion ag anabledd dysgu.

O safbwynt llety rydym wedi derbyn adnoddau a chefnogaeth er mwyn datblygu cynlluniau person canolog ar gyfer unigolion. Mae cyllid ar gael i gyflogi swyddog Cynllunio Person Canolog (Person Centered Planning, PCP) fydd yn gweithio ar draws Gwynedd a Môn ac rydym hefyd wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol [PBS] a deunyddiau e.e llawlyfrau sy'n adnodd defnyddiol iawn er mwyn sicrhau cynnwys unigolion yn llawn yn y broses cynlluniau ar gyfer eu cartref newydd.

Ar gyfer 2023/24, bydd cefnogaeth ar gael er mwyn cynllunio cais busnes ar gyfer y cynllun Cyfalaf Lletya ar gyfer y 4 blynedd nesaf. Fel rhan o hyn byddent yn cyd weithio i greu Achos Cyfiawnhau Busnes gyda cais am Reolwr Prosiect Lletya Anabledd Dysgu yn rhan o hyn. Croesawir y gefnogaeth a'r adnoddau yma i atgyfnerthu'r gwaith cynllunio a datblygu gweithlu.

RECRWTIO, HYFFORDDI A DATBLYGU STAFF

Mae dda cael datgan bod cydweithio da rhwng y darparwyr a'r gwasanaethau yn y maes anabledd dysgu. Gwelwyd hyn yn ystod cyfnod Covid ac mae'r berthynas a'r awydd i gyd gynhyrchu, rhannu adnoddau ac ymarfer da hyfforddi staff i weithio o fewn modelau megis Cefnogaeth Weithgar a Chefnogi Ymddygiad Cadarnhaol yn parhau.

Fel sy'n gyffredin ar draws y sector gofal, mae recriwtio yn her ac mae hyn yn golygu bod oedi wrth symud ymlaen gyda rhai prosiectau tai a chefnogaeth wrth i ddarparwyr wynebu her denu a chadw staff o fewn y maes. Fodd bynnag, mae ymrwymiad i ddarparu cefnogaeth o safon uchel i unigolion

gydag anghenion cymhleth a dwys er mwyn hyrwyddo amgylchedd cartref a chyfleoedd sy'n galluogi unigolion gyfranogi ac ymgymryd a gweithgareddau o fewn eu cymuned.

Mae timau aml ddisgyblaethol, yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, nyrsys arbenigol a therapyddion Iaith a Lleferydd yn cydweithio i gefnogi'r unigolion rheiny sydd ag anghenion cymhleth a dwys. Er mwyn atgyfnerthu hyn, hyfforddi a mentora rheolwyr a staff yn y model PBS sefydlwyd tîm arbenigol anghenion cymhleth a dwys yn 2021. Ariannir y tîm hwn drwy gyfrwng arian RIF. Ers cychwyn y prosiect hwn mae'r tîm wedi hyfforddi dros 60 o staff a gweithio'n uniongyrchol gyda dros 20 unigolyn a'r tîm staff er mwyn datblygu ymyraethau lleiaf ymwthiol ac yn berson canolog. Yn ychwanegol i'r tîm hwn darperir cefnogaeth ychwanegol gan y gwasanaeth Iechyd er mwyn ymateb yn ataliol i gefnogi ble mae sefyllfa cartref/ llety yn fregus ac i hyrwyddo cyfnodau trosglwyddo di dôr wrth gyflwyno unigolion i gartref neu leoliad newydd.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi canran uchel o unigolion gydag anghenion cymhleth a dwys felly mae'n hanfodol parhau a thyfu'r gwaith hwn. Bydd mewnbwn timau arbenigol yn hanfodol wrth symud ymlaen gyda'r gwaith o ddychwelyd unigolion all – sirol ac cleifion sydd mewn ysbyty yn ôl i leoliadau yng Ngwynedd.

Erbyn hyn mae'r gwasanaeth a'r arbenigedd yma yn bur greiddiol i wasanaethau Gwynedd wrth gefnogi unigolion ag anableddau dysgu. Byddai cefnogi a chynnal y gwasanaeth heb gronfa RIF yn hynod heriol.

# Eitem 8

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 21 Medi 2023 |
| **TEITL** | Brîff Grŵp Tasg a Gorffen Awtistiaeth |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I fabwysiadu'r briff ac i ethol aelodau |
| **AWDUR** | Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |

1. Yn dilyn derbyn cyflwyniad a diweddariad i Gynllun Awtistiaeth Gwynedd i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 20fed o Ebrill, 2023 penderfynodd y pwyllgor eu bod yn awyddus i sefydlu grŵp tasg a gorffen i sicrhau dealltwriaeth pellach ar y mater. Fel rhan o'r penderfyniad gwnaethpwyd cais i sicrhau cynrychiolwyr o'r Adran Addysg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fod yn bresennol i ateb rhai o'r pryderon.

2. Yn ogystal, penderfynwyd estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi hefyd i fod yn rhan o'r grŵp tasg, gan fod y gwaith yn pontio meysydd y ddau bwyllgor. Rhoddwyd cefnogaeth i hyn gan y Fforwm Craffu yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023.

3. Gweler y briff ar gyfer y gwaith fel atodiad i'r adroddiad hwn.

4. Gall uchafswm o 5 aelod fod yn rhan o'r grŵp tasg a gorffen ac yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r aelodaeth gynnwys cynrychiolaeth gan ddim llai na dau grŵp gwleidyddol gwahanol.

5. Gan fod y gwaith yn pontio meysydd dau bwyllgor, gofynnir am dri cynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Gofal, ac estynnir gwahoddiad i ddau aelod o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

6. **Gofynnir i'r Pwyllgor:**
   **(i) fabwysiadu'r brîff.**
   **(ii) ethol aelodau i ymgymryd â gwaith y grŵp tasg a gorffen.**

**GRŴP TASG A GORFFEN**
**CYNLLUN AWTISTIAETH**
BRÎFF

## Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried?

Cyflwynwyd diweddariad ar Gynllun Awtistiaeth Gwynedd i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 20fed o Ebrill, 2023. Cyflwynwyd diweddariad ar y gwaith sy'n mynd yn ei flaen, gan gynnwys diweddariad staffio, camau codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a gweithio mewn partneriaethau. Yn ogystal, bu i'r Aelodau Cabinet dros Wasanaethau Plant ac Oedolion gyflwyno blaenoriaethau'r 6 mis i ddod.

Cafwyd ymatebion i nifer o faterion a gododd yn ystod cyfarfod y pwyllgor, ond fe gododd rhai materion ychwanegol ynghylch profiad yr unigolyn wrth ddisgwyl diagnosis, rhwystredigaeth yn y gymuned ynghylch rhestrau aros am ddiagnosis a diffyg dealltwriaeth glir o'r gefnogaeth ar gael mewn ysgolion yn dilyn derbyn diagnosis.

Penderfynodd y pwyllgor eu bod yn awyddus i sefydlu grŵp tasg a gorffen i drafod y mater ymhellach gan wneud cais am sicrhau cynrychiolwyr o'r Adran Addysg a'r Bwrdd Iechyd i fod yn bresennol i ateb rhai o'r pryderon. Penderfynwyd i estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi hefyd gan fod y gwaith yn pontio meysydd y ddau bwyllgor.

Bwriad y gwaith pellach felly yw sicrhau dealltwriaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael

- i unigolion a'u teuluoedd wrth ddisgwyl diagnosis, ac a oes unrhyw rwystrau wrth ddisgwyl diagnosis
- yn dilyn diagnosis, yn arbennig y gefnogaeth sydd ar gael i blant o fewn ein hysgolion, ac a oes unrhyw rhwystrau

## Camau i weithredu

- Pwyllgor Craffu Gofal i dderbyn y briff ac adnabod 3 Aelod i gymryd rhan. **(**21/09/2023)
- Gwahodd cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi (2 aelod) i gymryd rhan. Byddwn yn gohebu gydag aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi dros ebost yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Craffu Gofal ar 21/09, gan gadarnhau'r aelodaeth yn ffurfiol yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 09/11/2023.
- Cynnal cyfarfod ar gyfer y 5 aelod gyda chynrychiolwyr o'r Adrannau Plant, Oedolion ac Addysg, a chynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd. (Union ddyddiad i'w gadarnhau yn dilyn trafodaeth gyda phartneriaid allweddol – rhagwelir diwedd 2023/cychwyn 2024)
- Adrodd nol i'r Pwyllgor Craffu Gofal – 1af o Chwefror 2024 (yn ddibynnol ar ddyddiad y cyfarfod uchod).

Swyddogion allweddol

Cynhelir y cyfarfod i’r 5 aelod fydd wedi eu hadnabod i gymryd rhan yn y grŵp tasg a gorffen gyda’r swyddogion allweddol isod:

| ADRAN | SWYDDOG ALLWEDDOL |
|---|---|
| Plant | Aled Gibbard, Uwch Reolwr Gweithredol |
| Oedolion | Helen Fôn Owen, Uwch Reolwr Anableddau Dysgu |
| Addysg | Delyth Gibbard, Uwch Athrawes Cyfathrebu a Rhyngweithio<br>Dr Einir Peters, Uwch Seicolegydd Addysgol ym maes Cyfathrebu a Rhyngweithio |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | I’w gadarnhau |